NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Golimumab ar gyfer trin spondyloarthritis echelinol nad yw'n radiograffig

10 Ionawr 2018

Mae golimumb ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â spondyloarthritis echelinol nad yw'n radiograffig os nad yw triniaeth â chyffuriau gwrthlidiol nad ydynt yn steroidau (NSAIDS) wedi gweithio neu nad ydynt yn addas.

Dylid asesu'r driniaeth ar ôl 12 wythnos a dylai ond parhau os oes tystiolaeth amlwg ei fod yn gweithio.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Cymdeithas Genedlaethol Spondylitis Ymasiol (NASS), 0208 741 1515
- Arthritis Action, 0203 781 7120
- Arthritis and Musculoskeletal Alliance, 0203 856 1978
- Gofal Arthritis, 0808 800 4050
- Arthritis Research UK, 0300 790 0400

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2780-7

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights